Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1045 (Cy. 173)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16) ("Deddf 1990") ac maent yn diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2611 (Cy. 222)) ("Rheoliadau 2007").

Mae Rheoliadau 2007 yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi darpariaethau penodol ("y darpariaethau penodedig") yn Rheoliad (EC) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 20 Rhagfyr 2006 ar honiadau am faethiad ac iechyd a wneir am fwydydd ("Rheoliad 1924/2006"). Mae Rheoliad 1924/2006 yn ddeddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (p. 28).

Mae Rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn drosedd torri'r darpariaethau penodedig. Mae Rheoliadau 2007 hefyd yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf 1990 at ddibenion Rheoliadau 2007. Mae rheoliadau 2(2) a 3(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2007 er mwyn symud y ddarpariaeth sy'n nodi'r darpariaethau penodedig o reoliad 5 o Reoliadau 2007 i reoliad 2(1) o'r Rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2007 i wneud newidiadau i'r gyfundrefn orfodi. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso (gydag addasiadau, pan fo hynny'n briodol) y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 1990—

a) adran 10(1), i alluogi cyflwyno hysbysiad gwella sy'n ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio â'r darpariaethau penodedig;
b) adran 10(2), i wneud methiant i gydymffurfio â hysbysiad gwella yn drosedd;
c) adran 32, i roi amrywiol bwerau i swyddogion awdurdodedig awdurdod gorfodi gan gynnwys pŵer i fynd i fangre i ganfod a oes

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

unrhyw doriad, neu dystiolaeth o doriad, o'r darpariaethau penodedig;

d) adran 33, i'w gwneud yn drosedd rhwystro personau sy'n gweithredu wrth arfer Rheoliadau 2007, methu â rhoi cymorth neu wybodaeth i bersonau o'r fath wrth gyflawni eu swyddogaethau, neu roi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol iddynt;

e) adran 35, i ddarparu, pan fo person yn euog o drosedd o dan adran 10(2), y bydd yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy;

f) adrannau 37 a 39, i wneud darpariaeth mewn perthynas ag apelau yn erbyn hysbysiadau gwella.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu rheoliad 7 o Reoliadau 2007 (y drosedd o rwystro swyddogion). Mae'r rheoliad hwn wedi ei ddisodli drwy gymhwyso'r darpariaethau cyfatebol yn adran 33 o Ddeddf 1990.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1045 (Cy. 173)

# BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024

*Gwnaed* *16 Hydref 2024*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *18 Hydref 2024*

*Yn dod i rym* *23 Ionawr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(f), 17(2), 26(1)(a), (2)(e) a (3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd(**2**).

(**1**) 1990 p. 16 ("Deddf 1990"). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16, 17, 26 ac 48, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)) gan erthygl 2 o O.S. 1999/672 ("Gorchymyn 1999") ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("Deddf 2006") a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. (Mae'r cyfeiriad yng Ngorchymyn 1999 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ddarllen fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf 2006). Mae adran 150A(2) o Ddeddf 2006 yn darparu bod cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ddarllen fel cyfeiriad at Senedd Cymru. Mae adran 150A(3) o Ddeddf 2006 yn datgan bod cyfeiriad at Senedd Cymru i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diwygiwyd adrannau 16(1) ac 48(1) o Ddeddf 1990 gan baragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 17(2) o Ddeddf 1990 gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraffau 7, 8 a 12(b) o Atodlen 5 iddi, a chan erthyglau 3 a 6 o O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 26(3) o Ddeddf 1990 gan adran 40(4) o Ddeddf 1999 ac Atodlen 6 iddi.

(**2**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn. Roedd hyn yn ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002(**1**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Ionawr 2025.

**Diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "darpariaeth benodedig o'r Rheoliad" ("*specified provision of the Regulation*") yw—

(a) Erthygl 3 (gofynion cyffredinol sy'n ymwneud â phob honiad);

(b) Erthygl 4(3) (cyfyngiadau ar honiadau y caniateir eu gwneud am ddiodydd alcoholaidd);

(c) Erthygl 6(2) (gofyniad i gyfiawnhau defnyddio honiadau);

(ch) Erthygl 7 (gofynion ar gyfer gwybodaeth faethol);

(d) Erthygl 8(1) (gofynion ar gyfer honiadau maethol);

(dd) Erthygl 9 (gofynion ar gyfer honiadau cymharol);

(e) Erthygl 10(1), (2) a (3) (gofynion ar gyfer honiadau am iechyd);

(f) Erthygl 12 (gwahardd honiadau penodol am iechyd);

(ff) Erthygl 14(2) (gofynion ar gyfer honiadau am leihau risg clefydau)."

(3) Yn rheoliad 5 (tramgwyddau a chosbau)—

---

(**1**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn

(**2**) O.S. 2007/2611 (Cy. 222), fel y'i diwygiwyd gan: O.S. 2010/1849, rheoliadau 2 a 3; O.S. 2014/1102, rheoliad 4; O.S. 2014/2303, rheoliad 13, Atodlen 6, Rhan 1 a rheoliad 14, Atodlen 7, Rhan 1, paragraffau 8 a 9 a Rhan 2, paragraffau 47 ac 48.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "(1)" fel bod y testun presennol yn dod yn rheoliad 5;

(ii) yn lle "ddarpariaethau'r Rheoliad a bennir ym mharagraff (2) neu sy'n methu cydymffurfio â hwy" rhodder "ddarpariaeth benodedig o'r Rheoliad neu sy'n methu â chydymffurfio â'r ddarpariaeth honno";

(b) hepgorer paragraff (2).

(4) Yn rheoliad 6 (cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf)—

(a) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) adran 10(1) a (2) (hysbysiadau gwella) gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen;";

(b) ar ôl paragraff (dd) mewnosoder—

"(dda) adran 32(1) i (8) (pwerau mynediad) gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen;

(ddb) adran 33 (rhwystro etc. swyddogion); ";

(c) ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) adran 35 (cosbi tramgwyddau) gyda'r addasiad a bennir yn Rhan 3 o'r Atodlen;";

(d) ar ôl paragraff (ff) hepgorer "ac" a mewnosoder—

"(ffa) adran 37(1), (3), (5) a (6) (apelau i lys ynadon) gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 4 o'r Atodlen;

(ffb) adran 39 (apelau yn erbyn hysbysiadau gwella) gyda'r addasiad a bennir yn Rhan 5 o'r Atodlen;".

(5) Hepgorer rheoliad 7 (rhwystro swyddogion a darparu gwybodaeth etc).

(6) Ar ôl y llofnod a'r dyddiad, mewnosoder yr Atodlen a ganlyn—

## "YR ATODLEN Rheoliad 6

## Addasu darpariaethau'r Ddeddf

### RHAN 1

### Addasu adran 10 o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella)

**1.** Mae adran 10(1) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn ei lle—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(1) If an authorised officer of an enforcement authority has reasonable grounds for believing that a person is failing to comply with a specified provision of the Regulation, the authorised officer may, by a notice served on that person (in this Act referred to as an "improvement notice")—

(a) state the officer's grounds for believing that the person is failing to comply with a specified provision of the Regulation;

(b) specify the matters which constitute the person's failure so to comply;

(c) specify the measures which, in the officer's opinion, the person must take in order to secure compliance;

(d) require the person to take those measures, or measures which are at least equivalent to them, within such period (not being less than 14 days) as may be specified in the notice."

## RHAN 2

### Addasu adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad)

**2.** Mae adran 32(1) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraffau (a) i (c)—

"(a) to enter any premises within the authority's area for the purpose of ascertaining whether there is or has been any contravention of a specified provision of the Regulation;

(b) to enter any business premises, whether within or outside the authority's area, for the purpose of ascertaining whether there is on the premises any evidence of any contravention within that area of a specified provision of the Regulation;
".

## RHAN 3

### Addasu adran 35 o'r Ddeddf (cosbi tramgwyddau)

**3.** Mae adran 35 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (1A)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(1B) A person guilty of an offence under section 10(2) shall be liable, on summary conviction, to a fine."

## RHAN 4

### Addasu adran 37 o'r Ddeddf (apelau i lys ynadon)

**4.** Mae pennawd adran 37 i'w ddarllen fel pe bai "or sheriff" wedi ei hepgor.

**5.** Mae is-adran (1) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn ei lle—

"(1) Any person who is aggrieved by a decision of an unauthorised officer of an enforcement authority to serve an improvement notice may appeal to the magistrates' court.".

**6.** Mae is-adran (5) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn ei lle—

"(5) An appeal as is mentioned in subsection (3) above must be made within the earlier of—

(a) the period of 28 days beginning with the day on which the improvement notice was served on the person desiring to appeal, or

(b) the period specified in the improvement notice,

and, in the case of such an appeal as is mentioned in subsection (3) above, the making of the complaint shall be deemed for the purpose of this subsection to be the bringing of the appeal.".

**7.** Mae is-adran (6) i'w darllen fel pe bai—

(a) "or (4)" wedi ei hepgor, a

(b) ym mharagraff (a), "or to the sheriff" wedi ei hepgor.

## RHAN 5

### Addasu adran 39 o'r Ddeddf (apelau yn erbyn hysbysiadau gwella)

**8.** Mae is-adran (3) i'w darllen fel pe bai "for want of prosecution" wedi ei hepgor.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Sarah Murphy*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a’r Blynyddoedd
Cynnar, un o Weinidogion Cymru
16 Hydref 2024